Compass Family Group Meeting Service

Information for young people

BELIEVE IN CHILDREN

Barnardo's Cymru

What is a Family Group Meeting (FGM)?

A Family Group Meeting is a chance for you, your family and friends to get together to make a plan for the future.

Where will it be held?

You and your family will decide where to have the meeting although it usually happens away from the family home. It will be somewhere you and your family feel comfortable. Your coordinator will talk with you about this.

Why have a family group meeting?

Everybody has problems from time to time!!! Sometimes these problems can be sorted out easily but sometimes they can't.

A Family Group Meeting can help you because it allows you and your family time to decide the best way to solve your problems.

Who will attend the meeting?

You and important people in your life such as:

- your family
- maybe a best friend.

Other people who will attend will include:

- A family group meeting coordinator. This person will arrange the meeting after talking with you and your family. The coordinator is the person who will start the meeting off.
- Professionals such as social workers and teachers. They will be at the meeting to discuss any difficulties you and your family are having.

You will be informed about who is coming before the meeting.

The Meeting is in 3 parts:

1 Introductions

The coordinator welcomes everybody. The social worker will then explain the problems you and your family have and need to talk about.

2 Private family time

You and your family will be left alone to make a plan for the future. The coordinator will be nearby if you need them.

3 Agreeing the plan

The coordinator and other workers come back into the meeting so that the plan can be agreed.

Questions & Answers:

Will someone help me to say what I want?

Yes. An advocate can help you to think about what you want to say before the meeting and help you during it. This person can be someone from your own family such as an auntie. It can also be someone who is not a family member, but someone who you trust such as a neighbour or a teacher.

Do I have to go?

This meeting is for you. If you really feel you cannot go, an advocate can speak for you. You can tell them what you would like them to say at the Family Group Meeting or you could write a letter, do a drawing or make a tape.

What happens if I don't want somebody at my Family Group Meeting?

Your coordinator will talk to you about why you don't want them there and if necessary find another way to include them if that is ok with you.

What if someone starts shouting?

Your coordinator will be nearby throughout the meeting to help someone who gets angry or upset. The coordinator may suggest that you and your family all take a break for a while.

What if things don't get better?

A review will be set up to make changes to the plan if it doesn't work. A Family Group Meeting is not a magic wand but it has helped children and young people all over the world!

Don't forget that the meeting is for you, so make sure you get the chance to really say what you want and feel!!

If you need to contact your Family Group Meeting Coordinator, please see below:

Coordinator's Details:

If you have any further questions about the Family Group Meeting Service, please contact:

Compass Family Group Meeting Service
Bryn Hyfryd, 2 Grosvenor Road
Wrexham LL11 1BU

01978 315130

compasspartnership@barnardos.org.uk

www.barnardos.org.uk

Barnardo's Registered Charity Nos 216250 and SC037605

Gwasanaeth Cyfarfodydd Grŵp Teulu Compass

Gwybodaeth i bobl ifanc

CREDWCH MEWN PLANT

Barnardo's Cymru

Beth yw Cyfarfod Grŵp Teulu?

Mae Cyfarfod Grŵp Teulu yn gyfle i ti, dy deulu a'th ffrindiau ddod at eich gilydd i lunio cynllun ar gyfer y dyfodol.

Ble y caiff y cyfarfod ei gynnal?

Ti a'th deulu fydd yn penderfynu lle y caiff y cyfarfod ei gynnal, er y bydd fel arfer yn digwydd y tu allan i gartref y teulu. Bydd y lleoliad yn rhywle lle'r wyt ti a'th deulu yn teimlo'n gyfforddus ynddo. Bydd dy gydlynydd yn siarad â thi am hyn.

Pam cynnal cyfarfod grŵp teulu?

Mae gan bawb broblemau o bryd i'w gilydd!!! Weithiau mae'n bosibl datrys y problemau hyn yn hawdd, ond weithiau fydd hynny ddim yn bosibl.

Gall Cyfarfod Grŵp Teulu dy helpu am ei fod yn rhoi amser i ti a'th deulu benderfynu ar y ffordd orau o ddatrys eich problemau.

Pwy fydd yn y cyfarfod?

Ti a'r bobl sy'n bwysig yn dy fywyd, megis:

- dy deulu
- ffrind gorau, efallai.

Dyma rai o'r bobl eraill a fydd yn bresennol:

- Cydlynydd cyfarfodydd grŵp teulu. Yr unigolyn hwn fydd yn trefnu'r cyfarfod ar ôl siarad â thi a'th deulu. Y cydlynydd fydd yn cychwyn y cyfarfod.
- Gweithwyr proffesiynol megis gweithwyr cymdeithasol ac athrawon. Bydd y bobl hyn yn bresennol yn y cyfarfod i drafod unrhyw anawsterau yr wyt ti neu dy deulu yn eu cael.

Cei wybod cyn y cyfarfod pwy fydd yn bresennol ynddo.

Ceir tair rhan i'r Cyfarfod:

1 Cyflwyniadau

Bydd y cydlynydd yn croesawu pawb. Yna, bydd y gweithiwr cymdeithasol yn esbonio'r problemau y mae angen i ti a'th deulu siarad amdanynt.

2 Amser preifat i'r teulu

Byddi di a'th deulu yn cael amser ar eich pen eich hunain i lunio cynllun ar gyfer y dyfodol. Bydd y cydlynydd gerllaw os bydd arnoch ei angen.

3 Cytuno ar y cynllun

Bydd y cydlynydd ac aelodau eraill y cyfarfod yn dod yn ôl i'r cyfarfod er mwyn i chi allu cytuno ar y cynllun.

Holi ac Ateb:

A fydd rhywun ar gael i'm helpu i ddweud beth rwyf eisiau ei ddweud?

Bydd. Gall eiriolwr dy helpu i feddwl am yr hyn yr hoffet ei ddweud cyn y cyfarfod, a'th helpu yn ystod y cyfarfod. Gall yr eiriolwr fod yn aelod o'th deulu, er enghraifft modryb. Gall hefyd fod yn rhywun nad yw'n aelod o'th deulu, ond yn unigolyn yr wyt yn ymddiried ynddo, fel cymydog neu athro.

Oes rhaid i mi fynd?

Er dy fwyn di mae'r cyfarfod hwn. Os byddi wir yn teimlo na alli fynd, gall eiriolwr siarad ar dy ran. Galli ddweud wrtho/wrthi beth hoffet ti iddo/iddi ei ddweud yn y Cyfarfod Grŵp Teulu neu gallet ysgrifennu llythyr, dynnu llun neu recordio tâp.

Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am i rywun fod yn fy Nghyfarfod Grŵp Teulu?

Bydd dy gydlynydd yn siarad â thi am y rhesymau nad wyt ti am i'r unigolyn fod yn y cyfarfod, ac os bydd angen, bydd yn ceisio dod o hyd i ffordd arall o'u cynnwys, os bydd hynny'n iawn gyda thi.

Beth os bydd rhywun yn dechrau gweiddi?

Bydd dy gydlynydd gerllaw drwy gydol y cyfarfod i helpu unrhyw un sy'n colli ei dymer/ei thymer neu wedi ypsetio. Mae'n bosibl y bydd y cydlynydd yn awgrymu y dylet ti a'th deulu gael hoe am dipyn.

Beth os na fydd pethau'n gwella?

Bydd adolygiad yn cael ei gynnal i wneud newidiadau yn y cynllun os na fydd yn gweithio. Nid ffon hud mo'r Cyfarfod Grŵp Teulu, ond mae wedi helpu plant a phobl ifanc o bedwar ban byd!

Cofia mai er dy fwyn di mae'r cyfarfod, felly gwna'n siŵr dy fod yn cael cyfle i ddweud beth sydd wir ar dy feddwl di!!

Os bydd angen i ti gysylltu â dy Gydlynydd Cyfarfod Grŵp Teulu, gweler y manylion isod:

Manylion y Cydlynydd:

Os hoffet ti ofyn unrhyw gwestiynau am y Gwasanaeth Cyfarfodydd Grŵp Teulu, cysyllta â:

Gwasanaeth Cyfarfodydd Grŵp Teulu Compass

Bryn Hyfryd, 2 Ffordd Grosvenor
Wrecsam LL11 1BU

01978 315130

compasspartnership@barnardos.org.uk

www.barnardos.org.uk

Rhifau Cofrestru'r Elusen Barnardo's 216250 a SC037605 9863CD08